



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Llanbedrgoch
Llanbedrgoch
Ynys Môn
LL76 8SX**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanbedrgoch

Mae Ysgol Gynradd Llanbedrgoch ym mhentref Llanbedrgoch ger arfordir dwyreiniol Ynys Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae 27 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys un disgybl oed meithrin. Fe'i rhennir yn ddau ddsbarth oedran cymysg.

Mae tua 3% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae tua 81% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 31% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2014. Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog. Maent yn gwrtais ac yn dangos agwedd bositif iawn tuag at eu gwaith.

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac mae perthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion a'r staff. Mae'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliant parhaus ac mae'r disgyblion yn elwa o brofiadau dysgu dychmygus.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn ac yn creu cyfeiriad strategol clir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Mae'r parch ac ethos o gydweithio agos yn amlwg rhwng aelodau'r staff. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen ddatblygu'u medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu
- A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i drin data ar draws y cwricwlwm
- A3 Gwella safon cyflwyniad a llawysgrifen ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i'r lleiafrif, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn medrau llafar a gwrando. O oed cynnar, maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd mewn sesiynau dysgu, ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn esbonio'n aeddfed yr hyn y gallent ei wneud i ryddhau blaidd oedd wedi ei garcharu mewn blocyn rhew. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd. Wrth baratoi ar gyfer cystadleuaeth yn eisteddfod yr Urdd, er enghraifft, mae'r parti llefaru yn cyflwyno'r darn adrodd 'Llau Pennau' yn fedrus gyda mwynhad amlwg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn frwdfrydig, gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau penodol yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith themâu, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes Grace Darling.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml, gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn hyfedr i ysgrifennu darnau diddorol estynedig, gan gynnwys portread o'r ystlum, a gwaith ffeithiol am fywyd yr elffant sy'n cynnwys disgrifiad o'i fywyd a'i gynefin.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, maent yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn cyflwyno gwybodaeth am Jamaica'n fedrus, ac yn llunio cyfarwyddiadau rhesymegol ar sut i wneud crymbl afal a mwyaduron. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o rif, siâp a mesur. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, ac yn haneru rhifau. Maent yn cyflwyno data ar ffurf graff bloc priodol am faint o fwyd mae anifeiliaid yn ei fwyta mewn

wythnos, ac yn dehongli'r canfyddiadau yn ddeallus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhesymu rhifyddol ar draws y meysydd dysgu yn ddigon cyson.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwysu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn datrys problemau bywyd yn fedrus yn eu gwaith menter busnes, er enghraifft wrth werthu pensiliau a lluniaeth i wneud elw ar ôl ystyried cost y cynnyrch a'r pris i'w godi.

Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gosod cyfarwyddiadau syml i degan er mwyn iddo symud o un lle i'r llall ar grid sgwâr. Maent yn datblygu eu medrau yn hyderus wrth gadw eu gwaith ar gof, er enghraifft drwy greu stori neu dynnu lluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno gwybodaeth am drydan. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu amrediad eang o drin data o fewn eu gwaith.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae ymddygiad bron bob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol yn ystod cyfnodau hamdden, gwasanaethau boreol ac mewn gwersi yn ardderchog. Maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn groesawgar, yn foengar ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol at bwy i droi mewn achosion o bryder. Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac effeithiol mewn gweithgareddau annibynnol, mewn grwpiau bychain ac mewn dosbarthiadau cyfan. Mae bron pob un yn dangos agwedd bositif tuag at eu gwaith, yn frwdfrydig ac yn barod i gefnogi ei gilydd yn effeithiol yn y gwersi. Maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd, er enghraifft trwy gymryd eu tro, caniatáu i eraill siarad, neu wrth fod yn bwyllog pan fydd eu cyfoedion yn anghytuno â nhw. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, ac maent yn cyfrannu'n bositif tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd.

Mae aelodau cyngor yr ysgol yn helpu i hybu defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg, er enghraifft drwy drefnu gweithgareddau a gemau ar gyfer amseroedd egwyl. Mae'r pwyllgor eco yn weithgar iawn yn hybu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu. Yn dilyn ymweliad a chanolfan arddio leol, maent yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion eraill ar sut i dyfu llysiâu a ffrwythau yng ngardd yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd y cyfle i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol. Maent yn casglu arian at achosion da, er enghraifft ward plant yn Ysbyty Gwynedd. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau allgyrsiol fel chwaraeon, ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae pob athro yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2, ac i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh y disgyblion trwy gyfrwng themâu diddorol. Fe drefnir gweithgareddau yn unol a'r themâu cyfredol sydd yn cylchdroi pob dwy flynedd; mae'r rhain yn fanwl ac yn dangos cyd-gynllunio effeithiol gan yr holl athrawon. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu ac i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau TGCh i drin data ar draws y cwricwlwm.

Mae pob aelod o staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda ac maent yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant cyfoes Cymru.

Fe geir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw ymweliadau blynyddol disgyblion cyfnod allweddol 2 i ganolfan awyr agored. Fe gaiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau meddwl, creadigol a datrys problemau wrth gynllunio a chreu rafft i forio ar yr Afon Fenai.

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o brofiadau dysgu dychmygus sydd wedi arwain at wella'u cyrhaeddiad. Mae athrawon yn cynllunio tasgau'n ofalus ar gyfer yr ystod oedran a'r gallu sydd yn y dosbarthiadau. Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog a gweithgareddau'n llifo'n dda. Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol, ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol diddorol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn aml yn cyfeirio at beth all y disgybl ei wneud i wella. Fe anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn dechrau deall eu cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u manau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. O ganlyniad, maent yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol a pherthnasol er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae cynlluniau dysgu unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn bwrpasol. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol i gefnogi disgyblion unigol yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini a sut i gadw'n ddiogel ar y we. Mae'r diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch sy'n bodoli yn hybu nodau'r ysgol yn effeithiol. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus drwy brofiadau pwrpasol, gan gynnwys gweithgareddau elusennol fel codi arian at Ysbyty Gwynedd neu drwy ddysgu am draddodiadau Tsieineaidd mewn partneriaeth â phrifysgol Bangor. Mae hyn yn meithrin parch y disgyblion tuag at ddiwylliannau a chredoau eraill ac yn eu hannog i dyfu'n ddinasyddion cyfrifol.

Er mwyn cyfoethogi ei darpariaeth, mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf a defnyddiol gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol, fel y therapydd iaith a'r seicolegydd addysg. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau pwysig. Er enghraifft, mae'r staff yn cyflwyno noson wybodaeth i'r rhieni i egluro sut y gall eu plant gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Mae safle'r ysgol yn lân ac yn ddiogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae sesiynau cyd-addoli o safon uchel, ac yn aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu moesol, a chaiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ganolbwyntio ar agweddau fel 'bod yn amyneddgar'. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol.

Mae'r cyfleoedd creadigol a dychmygol a gaiff eu cynnig drwy gystadlu mewn eisteddfodau lleol yn llwyddo i fagu hyder y disgyblion wrth berfformio'n gyhoeddus. Mae'r ysgol goedwig a gardd yr ysgol yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau cymdeithasol a gallu'r disgyblion i wneud penderfyniadau a datrys problemau. Caiff y rhain effaith bositif iawn ar hyder a chyraeddiadau'r disgyblion.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn ac, ers ei phenodiad, mae hi wedi creu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sydd yn seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae'r parch ac ethos o gydweithio agos iawn yn amlwg rhwng holl aelodau'r staff. Mae'r pennaeth wedi llwyddo i feithrin disgwyliadau uchel ymhlith y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r arweinyddiaeth wedi sicrhau cynnydd cyson yn nhaith wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r gwaith ar wella ysgrifennu estynedig wedi cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ysgrifennu'n bwrpasol mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae staff yn paratoi'n briodol ar gyfer y cwricwlwm newydd ac yn cynllunio'n bwrpasol i wireddu'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Caiff staff gyfleoedd addas i wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion lleol eraill. Fel rhan o'u gwaith hwn, maent wedi datblygu gweithgareddau ymarferol ar gyfer y cyfnod sylfaen, a chydgyllunio i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae hyn wedi gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol. Maent yn caffael gwybodaeth ddefnyddiol drwy adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth. Maent yn cynnal teithiau dysgu sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar flaenoriaethau penodol fel monitro agweddau disgyblion at ddysgu a safonau llythrennedd. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn wybodus i allu herio a chefnogi'r ysgol ac i gyfrannu tuag at osod blaenoriaethau strategol ar ei chyfer.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol a dibynadwy sy'n deillio o weithgareddau a gynhelir ar lawr y dosbarth. Mae'r broses yn cynnwys holi barn disgyblion a'u rhieni a gweithredu'n uniongyrchol ar unrhyw sylwadau priodol. Mae'r dystiolaeth sy'n dod o'r gweithdrefnau cyson hyn yn cyfrannu at osod blaenoriaethau priodol i wella'r ddarpariaeth a herio disgyblion i wneud eu gorau. Mae'r cynlluniau datblygu yn fanwl, yn cynnwys targedau heriol, atebolrwydd clir ac amserlen ymarferol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn rheolaidd ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr sy'n adnabod cryfderau a diffygion yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y ffocws yn gyson ar welliannau dros amser.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2018